

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd A. Asbrey, C.P. Franks a Dr. I.J. Johnson.

C176 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd yr Arweinydd mai'r cyfarfod hwn oedd y cyfarfod Cabinet olaf i'w gynnal yn 2023. I lawer byddai cyfnod y Nadolig yn gyfnod o ymlacio gyda theulu a ffrindiau, ond cydnabuwyd y byddai'n 'fusnes fel arfer' i lawer o drigolion a busnesau Bro Morgannwg. Byddai Timau Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor yn parhau i weithredu, yn ogystal â'r gyrwyr cerbydau nwyddau trwm pe bai cyfnod oer dros Nadolig gan ofyn am raeau'r ffyrdd. Byddai Gofalwyr Cartref a'r rheiny yn y Cartrefi Gofal lleol yn gweithio, yn ogystal â Gweithredwyr Teleofal a oedd ar y ffôn 24 awr y dydd fel cymorth hanfodol i gynorthwyo trigolion agored i niwed Bro Morgannwg. Byddai'r tîm Tai ar alwad i gefnogi'r rhai a oedd yn cael eu hunain mewn trafferthion dros gyfnod yr ŵyl, ynghyd â sefydliadau fel y Samariaid. Yn lleol, byddai'r siopau yn dal i fod yn masnachu i raddau helaeth dros gyfnod y Nadolig, yn ogystal â thafarndai a bwytai. Hefyd, byddai'r Gwasanaethau Brys lleol ar alwad ac yn gweithredu dros gyfnod y gwyliau. I bawb yn gweithio drwy'r Nadolig a'r flwyddyn newydd, boed fel gofalwr, llwythwr lori sbwriel, nyrs,

No.

cynorthwy-ydd siop, rhan o'r tîm atgyweirio ffyrdd, gweithiwr brys neu fwyty, diolchodd y Cabinet iddynt gan ddymuno Nadolig hapus a 2024 llewyrchus i bawb.

C177 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd B.E. Brooks.

C178 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

C179 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C180 CABINET RHANBARTHOL PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD –

Dywedodd yr Arweinydd fod y cofnodion yn gryno ac wedi'u cynllunio i gael eu darllen ochr yn ochr ag eitemau agenda'r cyfarfod i ddangos y penderfyniadau a wnaed a'u bod wedi'u cynnwys er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C181 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR: 2024-25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2024-25.

Rhestrwyd manylion y cyfrifiad ym Mharagraff 2.1 yr adroddiad gyda'r rhagdybiaethau cysylltiedig a wnaed wedi'u rhestru ym Mharagraff 2.2. Bu'n rhaid cadarnhau'r ffigyrau i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2023 yn dilyn y copi drafft ardystiedig a anfonwyd i Lywodraeth Cymru i fodloni ei dyddiad cau blaenorol o 14 Rhagfyr 2023.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

No.

PENDERFYNWYD - Y BYDDAI, yn unol â'r adroddiad ac yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth), y swm a gyfrifwyd gan Gyngor Bro Morgannwg fel Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2024-25 fel a ganlyn:

- Ar gyfer yr ardal gyfan: 63,397
- Ar gyfer ardal Cyngorau Tref a Chymuned:

Cyngor Tref/Cymuned	Sylfaen Treth £	Cyngor Tref/Cymuned	Sylfaen Treth £
Y Barri	21,193	Pendeulwyn	353
Tregolwyn	378	Pen-llin	1,085
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	2,998	Llanbedr-y-fro	559
Dinas Powys	4,032	Y Rhws	3,238
Ewenni	450	Sain Tathan	1,699
Llancarfan	489	Saint-y-brid	1,480
Llandochau	969	Sain Dunwyd	217
Llandŵ	447	Sain Siorys a Llansanffraid Elái	246
Llanfair	388	Sain Nicolas a Thresimwn	761
Llan-gan	477	Sili a Larnog	2,828
Llan-faes	259	Llanddunwyd	330
Llanilltud Fawr	4,367	Gwenfô	1,571
Llanfihangel	252	Y Wig	541
Penarth	11,790		

Y rheswm dros y penderfyniad

Roedd yn hanfodol gosod Sylfaen y Dreth Gyngor er mwyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i defnyddio gan Gyngorau a chyrff ardollau i bennu prae-septau.

C182 PRECEPT DYDDIADAU TALIAD 2024-25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer talu prae-septau ar gyfer 2024-25.

Dywedodd fod biliau Treth Gyngor hefyd yn cynnwys y manylion casglu ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru er nad oedd hynny ar ffurf prae-sept ond yn cael ei gasglu fel rhan o'r Dreth Gyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei bod yn ddefnyddiol i Gyngorau Tref a Chymuned a chyrff eraill wybod pryd y byddai taliadau yn ddyledus i helpu i reoli llif eu harian.

No.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr hyn sy'n ddyledus i Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru yn cael ei dalu mewn 12 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis.

(2) BOD yr hyn sy'n ddyledus i Gynghorau Tref a Chymuned yn cael ei dalu mewn 3 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnodau gwaith olaf mis Ebrill, mis Awst a mis Rhagfyr 2024.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Penderfynwyd ar y dyddiadau er mwyn gwneud y gorau o lif arian parod y Cyngor yn unol â'r rheoliadau.

C183 CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH GYNGOR (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cadarnhau ail-fabwysiadu'r Cynllun Cenedlaethol Gostyngiad y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/2025 yn seiliedig ar reoliadau ac ail-gadarnhau disgrisiynau'r Cyngor. Amlinellwyd yr elfennau disgrisiynol ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod yn rhaid ystyried y mater yn flynyddol a'i fod yn dangos cefnogaeth i bobl mewn angen, y lluoedd arfog a chyn-filwyr ym Mro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno ac i'w gyfeirio i'r Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2024.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor Llawn y dylid mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) OS 2013/3029 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2014 OS 2014/66.

(2) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor Llawn nodi y dylai unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu yn y cynllun.

(3) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor Llawn y dylai'r cynllun cenedlaethol gael ei fabwysiadu gyda'r disgrisiynau canlynol:

No.

- Dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Taliadau Estynedig hyd at uchafswm o 4 wythnos.
- Dylai'r Cyngor barhau i ddiystyru pensiynau Gweddwon Rhyfel ac Anabledd Rhyfel wrth asesu incwm ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor.
- Dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Gostyngiadau wedi'u Hôl-ddyddio am gyfnod o hyd at 26 wythnos.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cyngor i gymeradwyo'r Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2024 ac i'r Cynllun fod ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill 2024.

(2) Dylai taliadau estynedig barhau am hyd at 4 wythnos gan fod hyn yn rhoi cymhelliant i gwsmeriaid ddechrau gwaith ac yn rhoi amser iddynt dderbyn eu cyflog cyntaf. Byddai'r niferoedd y mae hyn yn effeithio arnynt hefyd yn parhau i ostwng wrth i gwsmeriaid symud i Gredyd Cynhwysol ac yna nid oedd taliadau estynedig yn berthnasol.

(3) Dylai pensiynau Gweddwon Rhyfel ac Anabledd Rhyfel barhau i gael eu diystyru er mwyn galluogi'r Cyngor i barhau i gefnogi Cyn-filwyr a'u teuluoedd. Dylai ôl-ddyddiadau barhau i gael eu caniatáu am uchafswm o 26 wythnos i ganiatáu cymorth i'r rhai sydd ag achosion dilys am beidio â gwneud cais yn gynt ac i gael gwared â rhywfaint o faich dyled. Byddai'r achosion hynny'n aml yn cael eu trosglwyddo fel arall ar gyfer camau adennill pellach, gan roi pwysau pellach arnynt.

C184 PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR AR EIDDO GWAG HIRDY MOR AC AIL GARTREFI (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth i'r polisi gael ei fabwysiadu ar gyfer Treth Gyngor Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yn 2024-25.

Ymatebodd nifer o bobl i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2022 a lywiodd benderfyniad y llynedd. Ers hynny, roedd nifer yr ail gartrefi a nodwyd wedi codi o 402 i 508. Dywedodd yr Arweinydd fod grantiau ar gael drwy'r Cyngor i unrhyw un sydd â thŷ i'w adnewyddu i'w ddefnyddio eto ar gyfer pobl ym Mro Morgannwg sydd angen y cartrefi hynny. Ar hyn o bryd roedd diffyg sylweddol o ran y cartrefi a oedd ar gael, ac roedd yn iawn annog adnewyddu eiddo gwag i'w defnyddio gan bobl leol. Cydnabuwyd bod eithriadau, fel profiant, a allai effeithio ar yr amser y byddai'n ei gymryd i adnewyddu eiddo i'w ddefnyddio eto.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y polisi o ran peidio â rhoi unrhyw lefel o ostyngiad ar gyfer anheddau gwag sydd wedi aros felly ers 6 mis y cytunwyd arno ar gyfer 2023-24, yn cael ei gytuno ar gyfer 2024-25.
- (2) BOD y premiwm eiddo gwag hirdymor o 100% y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2023 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn parhau ar gyfer eiddo o'r fath o 2024-25 sy'n parhau felly am y cyfnod hyd at (ond heb gynnwys) 24 mis.
- (3) BOD premiwm o 150% yn cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2024 ar gyfer eiddo gwag hirdymor sydd wedi aros felly ers cyfnod parhaus o 24 mis neu fwy.
- (4) BOD premiwm o 200% yn cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2025 ar gyfer eiddo gwag hirdymor sydd wedi aros felly ers cyfnod parhaus o 36 mis neu fwy.
- (5) BOD y polisi i gyflwyno premiwm o 100% ar gyfer ail gartrefi ym mlwyddyn ariannol 2024-25 y cytunwyd arno ar 6 Mawrth 2023 yn cael ei ail-gadarnhau.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Roedd angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar ostyngiadau mewn perthynas ag anheddau gwag fel y diffiniwyd yn nosbarthau A, B ac C Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 bob blwyddyn.
- (2 a 4) Roedd angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar bremiymau mewn perthynas ag eiddo gwag hirdymor fel y diffiniwyd yn Adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- (3) Ar ôl adolygu'r gwaith o weithredu'r premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor a gyflwynwyd o ddechrau 1 Ebrill 2023, teimlwyd y gallai cynnydd syth i lefelau'r premiwm fel y cynigiwyd yn flaenorol, wrthsefyll bwriad y polisi, sef adnewyddu eiddo gwag hirdymor i'w defnyddio eto, pe bai lefel y ffioedd dyledus yn rhwystro gwaith angenrheidiol i wneud annedd yn un y gellir byw ynddo. O'r herwydd, teimlwyd y byddai dull fesul cam yn cyd-fynd yn fwy â'r polisi i sicrhau bod eiddo gwag hirdymor parhaus yn cael eu targedu.
- (5) Roedd angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar bremiymau mewn perthynas ag ail gartrefi fel y diffiniwyd yn Adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

C185 GWAREDU HEN FLOC TOILEDAU AR DRAETH LLANILLTUD FAWR (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatgan nad oes angen hen floc toiledau anweithredol, ynghyd â thir cysylltiedig, wedi'i leoli ger y traeth yn Llanilltud Fawr

No.

ar y Cyngor mwyach ac yn amodol ar ddatgan nad oes angen y bloc toiledau, i farchnata'r safle gyda'r opsiwn o brydles 25 mlynedd ar gael i bartion â diddordeb.

Cytunodd y Cynghorydd Williams ei bod yn bryd i'r safle gael ei ddefnyddio am reswm da a'i bod yn bwysig bod yn deg i unrhyw ddatganiadau pellach o ddiddordeb.

Dywedodd y Cynghorydd John nad oedd y toiledau wedi bod yn cael eu defnyddio ers 30 mlynedd ac y byddai angen gwneud gwaith i'w defnyddio ac roedd yn gefnogol o adnewyddu'r safle i'w ddefnyddio eto.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr hen floc toiledau nas defnyddir ar draeth Llanilltud Fawr yn cael ei ddatgan fel un nad oes ei angen ar Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai mwyach.

(2) BOD y safle yn cael ei farchnata gyda'r cyfle i brydlesu am hyd at uchafswm o 25 mlynedd.

(3) BOD y meini prawf ar gyfer gwerthuso unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb yn y safle yn cael eu strwythuro i adlewyrchu pris a budd cymunedol.

(4) BOD unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb yn y safle yn cael eu hadrodd i'r Cabinet am benderfyniad terfynol ar brydlesu'r safle.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Hysbysebu'r safle ar gyfer defnyddiau eraill a dileu unrhyw gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r safle.

(2) Ceisio datganiadau o ddiddordeb mewn defnyddio'r safle at ddibenion amgen.

(3) Sicrhau bod unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol o fudd i'r gymuned.

(4) Sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ynghylch dyfodol y safle hwn yn cael eu gwneud yn briodol.

C186 STRATEGAETH PARTNERIAETH BRO DDIOGELACH 2023-2028 (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach 2023-2028 a chytuno ar y cyllid a oedd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach.

Roedd nifer o ganlyniadau cadarnhaol wedi'u cyflawni mewn ymateb i faterion trosedd ac anhrefn ar draws Bro Morgannwg, gan gynnwys uwchraddio i deledu cylch cyfyng a oedd wedi arwain at nodi nifer o droseddwyd. Byddai'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys gweithredu ymyriadau newydd a ddyfarnwyd trwy Gyllid Ffyniant Cyffredin a Strydoedd Saffach ac arian manau ymddygiad gwrthgymdeithasol problemus. Byddai'r holl bolisiâu'n cael eu hadnewyddu a'u diweddarau yn ogystal â phrotocolau rhannu gwybodaeth a oedd yn sicrhau trefniadau llywodraethu llymach. Roedd dull 5 mlynedd y Strategaeth yn adlewyrchu natur diogelwch cymunedol a sut y disgwyliid i flaenoriaethau newid dros amserlen y Strategaeth, a oedd yn fwriadol eang i alluogi lle ar gyfer ystod o gamau gweithredu penodol a fyddai'n cael eu harwain gan wybodaeth, ac yn seiliedig ar anghenion. Roedd y Strategaeth yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf a oedd yn cynnwys newid annisgwyl oherwydd pandemig COVID-19.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Sivagnanam bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a bod y Strategaeth nid yn unig yn bwriadu delio â materion wrth iddynt godi, ond hefyd yn bwriadu atal a oedd yn gofyn am weithio gyda chyrrff allanol eraill i gyflawni canlyniadau.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach 2023-2028 sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei mabwysiadu.

(2) BOD adroddiadau pellach ar gamau gweithredu'r Cyngor wrth gyflawni'r strategaeth yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried fel y bo'n briodol, a bod adroddiadau gwybodaeth pellach ynghylch camau gweithredu'r Cyngor wrth gyflawni'r strategaeth yn cael eu cyflwyno fel adroddiadau gwybodaeth i Aelodau etholedig maes o law.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei Ddyletswydd Statudol dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ddangos ymrwymiad y Cyngor i atal, lleihau a mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn ym Mro Morgannwg a galluogi'r Cyngor i barhau i

No.

gyfrannu cymorth strategol a gweithredol i raglen waith a oedd eisoes wedi cyflawni canlyniadau llwyddiannus.

(2) Gofyn am benderfyniadau gan y Cabinet yn y dyfodol lle bo angen ac hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd a wnaed wrth fodloni ei ofynion dan y Ddeddf.

C187 RHANBARTHOLI DATBLYGU CHWARAEON (HCL) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth i Fro Morgannwg ddod yn rhan o fenter Datblygu Chwaraeon Canolbarth y De fel Partner Strategol. Roedd Partneriaethau Chwaraeon eisoes wedi'u sefydlu yng Ngorllewin a Gogledd Cymru a'r gobaith oedd mai Rhanbarth Canolbarth y De fyddai nesaf.

Dywedodd yr Arweinydd fod Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio'n gynhyrchiol gyda Chwaraeon Cymru yn y gorffennol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democritaidd, yn cael ei awdurdodi i gytuno ar y trefniadau llywodraethu a chynnwys Cyngor Bro Morgannwg ym Mhartneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De fel Partner Strategol.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol i'w ystyried.

(3) BOD y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod Datblygu Chwaraeon yn parhau i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol er budd cymunedau'r Cyngor.

(2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu am y datblygiad a galluogi unrhyw sylwadau i gael eu hystyried cyn ymuno â'r bartneriaeth.

(3) Monitro perfformiad Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De o safbwynt Bro Morgannwg a gallu rhannu unrhyw wybodaeth briodol gyda'r Cabinet.